Lefel 1 Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gateway (Llawn Amser)

Mae'r cwrs Lefel 1 Porth Iechyd a Gofal Cymdeithasol hwn yng Ngrŵp Colegau NPTC yn darparu cyflwyniad i'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth, sgiliau ymarferol a hyder drwy amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol, gan wella sgiliau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd drwy fframwaith Hanfodol Cymru. Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau Mathemateg a Saesneg i gefnogi cynnydd, annibyniaeth a chyflogadwyedd yn y dyfodol. Caiff dysgu ei gefnogi drwy osod targedau unigol a'r broses RARPA (Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad).

Gofynion Mynediad

Cwblhau rhaglen Mynediad Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn llwyddiannus neu dystiolaeth o'r gallu i weithio ar Lefel 1.

Rhagolygon Gyrfa

Gall myfyrwyr symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch, interniaethau â chymorth, cyfleoedd gwirfoddol neu gyflogaeth yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Lle bo'n briodol ac yn gyraeddadwy, gall rhai myfyrwyr hefyd weithio tuag at gymhwyster BTEC i gefnogi cynnydd pellach.

Modiwlau'r cwrs

Mae'r unedau sy'n cael eu hastudio yn cynnwys thamau seiliedig ar blant ac oedolion

Asesiad

Mae asesu'n digwydd drwy waith cwrs, gweithgareddau ymarferol a chanlyniadau unigol seiliedig ar dargedau. Caiff cynnydd a chyflawniad eu monitro a'u cofnodi drwy'r broses RARPA. Lle bo myfyrwyr yn gallu bodloni gofynion cymwysterau, gallant ymgymryd â chymhwyster BTEC; fel arall, caiff dysgu ei gyflwyno drwy lwybr personol heb achrediad.

Costau Ychwanegol

Efallai y bydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cwrs.

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Afan - 0330 818 8100

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

Blwyddyn